Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)
## Cydsyniad deddfwriaethol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o'r cymalau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) ('y Bil') a gyflwynir gan Senedd y DU sy'n ceisio gwneud darpariaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd, felly, yn ddarostyngedig i'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r Bil na sylwebaeth ehangach ar y Cytundeb Ymadael y mae'r Bil yn ceisio ei weithredu.

Mae’r adroddiad yn cael ei lunio gyda'r bwriad o lywio dadl y Cynulliad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil, a drefnir ar gyfer 21 Ionawr 2020 ar hyn o bryd.

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno ar y telerau y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn unol â hwy. Mae'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 yn disgrifio'r telerau hyn.[1]

**2.** Er mwyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, ar delerau'r Cytundeb Ymadael, rhaid i Senedd y DU ddeddfu i roi effaith i'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig.

**3.** Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)[2] ar 19 Rhagfyr 2019 i wneud yn union hynny, h.y. rhoi effaith i'r Cytundeb Ymadael yng nghyfraith y DU.

**4.** Yn ôl ein hasesiad o'r Bil, mae 25 o 42 o gymalau'r Bil yn ceisio deddfu mewn ffordd sy'n defnyddio'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn darparu ein hasesiad o'r cymalau hyn.

**6.** Er hwylustod croesgyfeirio, rydym wedi adlewyrchu'r drefn y cyflwynir y cymalau hyn ynddi ym memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ('y Memorandwm').[3]

---

[1] Y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol, Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, 12 Tachwedd 2019

[2] Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) (y fersiwn a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019) (Saesneg yn unig)

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), 6 Ionawr 2020

### Nodyn ar yr adroddiad hwn

**Nid yw'r adroddiad hwn** yn ceisio darparu crynodeb o'r Bil na sylwebaeth ehangach ar y Cytundeb Ymadael ei hun.

I'r darllenydd sydd â diddordeb mewn dadansoddiad ehangach o'r Bil, gallai fod o ddiddordeb nodi'r canlynol:

- ceir testun diweddaraf y Bil a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar wefan Senedd y DU;
- mae crynodeb o'r Bil wedi'i gyhoeddi gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

Yn ogystal, **nid yw'r adroddiad hwn** yn ceisio gwneud sylwadau ar fersiwn mis Hydref 2019 o'r Bil na'r cymalau a gafodd eu cynnwys yn y fersiwn honno ond a gafodd eu hepgor o fersiwn mis Rhagfyr 2019 o'r Bil.

# 2. Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

## Rhan 1 – Cyfnod gweithredu

## Cymalau 1 a 2 – Cyfraith arbed ar gyfer y cyfnod gweithredu (paragraffau 7-9 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ceisio ei wneud

**7.** Mae'r adran gyntaf o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 ('Deddf 2018')[4] yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ('DCE')[5] ar y diwrnod ymadael.

**8.** Mae cymalau 1 a 2 o'r Bil yn ceisio diwygio Deddf 2018 er mwyn 'arbed' DCE drwy gydol y cyfnod gweithredu.

**9.** Y rheswm dros hyn yw y bydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys yn ystod y cyfnod hwn.

### Pam y mae angen cydsyniad

**10.** Mae'r cymalau hyn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') mewn dwy ffordd.

---

[4] Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019 c.16

[5] Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 c.68

**11.** Yn gyntaf, mae'r cymalau hyn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy barhau â'r gofyniad i gydymffurfio â chyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu.

**12.** Yn ail, mae mwyafrif y darpariaethau o dan y cymalau hyn yn cael eu gwarchod rhag cael eu haddasu yn y dyfodol gan y Cynulliad, o dan baragraff 31 o Atodlen 5 i'r Bil. Fel y mae Llywodraeth Cymru yn nodi ym mharagraff 9 o'r Memorandwm, ail addasiad ar wahân yw hwn o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

## EIN BARN NI

**Casgliad 1.** Mae arbed DCE er mwyn parhau â'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio yn angenrheidiol yn yr amgylchiadau presennol.

**Casgliad 2.** Mae'r gofyniad i'r Cynulliad gydymffurfio â chyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu yn barhad o'r cyfyngiad presennol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Casgliad 3.** Mae addasu cymhwysedd y Cynulliad, drwy atal y Cynulliad rhag addasu rhai o'r darpariaethau hyn yn y dyfodol, yn gyson â'r dull gweithredu a ddilynwyd o ran Deddf 2018.

**13.** Diwygiodd Deddf 2018 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[6] i wneud y cyfan o Ddeddf 2018 yn 'ddeddfiad gwarchodedig', h.y. ni chaiff y Cynulliad ei haddasu.

**14.** Mae'r Bil yn nodi nifer o adrannau o Ddeddf 2018 sydd wedi'u rhyddhau ('darpariaethau eithriedig') o'r cyfyngiad mwy cyffredinol hwn, gan gynnwys is-adrannau (3) a (4) o'r adran 1B newydd sydd i'w mewnosod gan gymal 2 o'r Bil.

**Casgliad 4.** Effaith hyn yw diweddaru cymhwysedd y Cynulliad yn unol â'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru ac mae'n welliant ar y cyfyngiad cyffredinol a grëwyd gan Ddeddf 2018.

**15.** Rydym yn nodi nad yw Memorandwm Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu manylion y newid hwn. Ym mharagraff 9 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn nodi, mewn perthynas â chymalau 1 a 2 o'r Bil, y *"Daw'r cymalau hyn yn ddeddfiadau gwarchodedig"*.

[6] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 c.32

**Casgliad 5.** Rydym yn credu ei bod yn bwysig nodi, er y bydd y mwyafrif o’r darpariaethau a fewnosodir yn Neddf 2018 gan gymalau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu gwarchod rhag eu haddasu gan y Cynulliad yn y dyfodol, fod is-adrannau (3) a (4) o'r adran 1B newydd (sydd i'w mewnosod yn Neddf 2018 gan gymal 2 o'r Bil) wedi'u heithrio o'r warchodaeth hon.

## Deddfiadau gwarchodedig a'r setliad datganoli

Caiff cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ei lywio mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar allu'r Cynulliad i addasu nifer gymharol fach o gyfreithiau, ni waeth a ydynt yn cynnwys darpariaethau a fyddai, fel arall, yn cael eu datganoli.

Rhestrir y cyfreithiau sy'n ddarostyngedig i'r cyfyngiad hwn ym mharagraff 5 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cyfeirir at y cyfreithiau hyn fel “deddfiadau gwarchodedig”.

Mae'r rhestr o ddeddfiadau gwarchodedig yn cynnwys Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('Deddf 2018').

Mae'r Bil yn ceisio cyflwyno nifer o gymalau newydd i Ddeddf 2018. Wrth ychwanegu darpariaethau at Ddeddf 2018, mae cwmpas y cyfyngiad a nodir uchod yn cael ei newid.

Mae newid i'r cyfyngiad yn cynrychioli newid i gymhwysedd y Cynulliad. Felly, pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn dadlau bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'r Bil hefyd yn ceisio rhyddhau nifer o ddarpariaethau yn Neddf 2018 rhag cael eu cyfyngu. Mae'n ceisio gwneud hyn drwy gynnal y cyfyngiad mwy cyffredinol ar ddiwygio Deddf 2018, ond gan restru nifer o ddarpariaethau penodol sydd wedi'u heithrio o'r cyfyngiad hwn.

Mae dileu'r darpariaethau hyn o’r cyfyngiad yn newid y cyfyngiad ar gymhwysedd y Cynulliad. Eto, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn dadlau bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hyn.

## Cymalau 3 a 4 – Pwerau atodol (paragraffau 10 ac 11 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ceisio ei wneud

**16.** Mae'r cymalau hyn yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig, drwy ddiwygio Deddf 2018, i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r cyfnod gweithredu.

**17.** Mae'r pwerau hyn yn eang a gallai Gweinidogion y DU eu defnyddio i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig.

**18.** Nid yw pwerau'r Gweinidogion datganoledig i wneud rheoliadau'n estyn y tu hwnt i derfynau 'cymhwysedd datganoledig' awdurdod datganoledig fel y'i diffinnir yng nghymal 4.

### Pam y mae angen cydsyniad

**19.** Gellid defnyddio'r pwerau y mae'r cymalau hyn yn ceisio eu rhoi er mwyn gweithredu'r Cytundeb Ymadael mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

### EIN BARN NI

**20.** Wrth drafod Deddf 2018 yn ystod cyfnod y Bil, gwnaethom godi pryderon ynghylch ehangder y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

**21.** Rydym yn nodi bod y pwerau a ddarperir gan y cymalau hyn yr un mor eang.

**22.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi eu bod yn gyfyngedig o ran amser. Ni ellir eu harfer ar ôl diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau gyda diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**23.** Mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru, sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain, yn ceisio gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol neu brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**24.** Yn yr holl achosion eraill, bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Casgliad 6.** O ystyried ehangder y pwerau hyn, efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad am ystyried a yw'r cyfyngiad amser ar y pwerau hyn, a'r weithdrefn graffu sydd i'w chymhwyso, yn darparu lefel addas o reolaeth a goruchwyliaeth.

## Rhan 2 – Rhoi gweddill y cytundeb ymadael ar waith etc: cyffredinol

## Cymalau 5 a 6 – Gweithrediad cyffredinol gweddill y Cytundeb Ymadael a gweithrediad cyffredinol cytundebau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop yr AEE a'r Swistir (paragraffau 12 a 13 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ceisio ei wneud

**25.** Mae'r cymalau hyn yn ceisio gweithredu gweddill y Cytundeb Ymadael a chytundebau cysylltiedig Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop yr AEE a'r Swistir.

### Pam y mae angen cydsyniad

**26.** Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi y daw cymalau 5 a 6 yn "ddeddfiadau gwarchodedig", gan addasu cymhwysedd y Cynulliad o ganlyniad i hynny.

**27.** Mae cymalau 5 a 6 yn mewnosod adrannau 7A a 7B newydd yn Neddf 2018. Gwarchodir yr adrannau newydd hyn rhag cael eu haddasu gan y Cynulliad yn y dyfodol.

**28.** Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi nodi bod y cymalau hyn yn newid cymhwysedd Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad.

### EIN BARN NI

**Casgliad 7.** Rydym yn cytuno bod cymalau 5 a 6 yn newid cymhwysedd y Cynulliad.

## Rhan 3 – Hawliau dinasyddion

## Cymalau 12 i 14, ac 16-17 ac Atodlen 1 – Cydnabod cymwysterau proffesiynol, cydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol a pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc. a phwerau awdurdodau datganoledig o dan adrannau 12, 13 a 14 (paragraffau 14 i 22 o’r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ceisio ei wneud

**29.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymwneud â’r rhan hawliau dinasyddion o'r Cytundeb Ymadael.

**30.** Fel y nodir ym Memorandwm Llywodraeth Cymru, mae cymalau 12 i 14 yn ymwneud ag agweddau ar y Cytundeb Ymadael a “*allai ei gwneud yn ofynnol gwneud darpariaeth ddomestig i roi'r rhwymedigaethau ar waith yn effeithiol*”.

**31.** Mae pob un o'r tri chymal hyn yn darparu pwerau i “awdurdod priodol”, sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu o fewn cymhwysedd datganoledig (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i'r Bil), i wneud rheoliadau sy'n gweithredu agweddau gwahanol ar y Cytundeb Ymadael, fel a ganlyn:

- **cymal 12** – Pennod 3 o Deitl II o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â **chymwysterau proffesiynol**;
- **cymal 13** – Teitl III o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â **chydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol,** gan gynnwys **gofal iechyd cilyddol**;
- **cymal 14** – darpariaethau penodol o’r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â **pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr** etc.

**32.** Mae Atodlen 1 yn nodi sut y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn, gan gynnwys pryd y caiff Gweinidogion Cymru weithredu'n annibynnol, pryd y bydd arnynt angen cydsyniad Gweinidog y Goron a phryd y mae'n rhaid arfer pwerau ar y cyd neu drwy ymgynghori â Gweinidogion y DU.

**33.** Mae memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi’r canlynol:

> Seilir y gofynion hyn ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a hefyd bwerau gweithredol presennol eraill Gweinidogion Cymru.

**34.** O ran y weithdrefn sy'n gymwys i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau hyn, mae'r dull gweithredu'n debyg i'r modd y trinnir pwerau eraill a gynigir yn y Bil, h.y. cymhwysir y weithdrefn gadarnhaol pan fo rheoliadau'n ceisio diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys yn uniongyrchol. Mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys ar gyfer rheoliadau eraill a wneir drwy ddefnyddio'r pwerau hyn.

**35.** Mae cymal 16 yn gwneud darpariaethau atodol ar gyfer gwneud rheoliadau yn Rhan 2 o'r Bil, gan gynnwys mewn perthynas â chymal 14.

**36.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymal 17 yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad. Nid yw Llywodraeth y DU yn rhestru hyn fel cymal y mae arno angen cydsyniad y Cynulliad.

**37.** Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau fel a ganlyn:

- Mae cymal 17 yn cynnwys diffiniad a ddefnyddir yng nghymal 14.
- Mae cymal 14 yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad.
- Felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer yr agwedd honno ar gymal 17.

## Pam y mae angen cydsyniad

**38.** Mae cymalau 12 i 14 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru weithredu agweddau ar Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael sy'n croestorri â meysydd cymhwysedd datganoledig.

**39.** Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi "*ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaeth sy'n rhoi'r Cytundeb Ymadael ar waith mewn meysydd datganoledig*".

## EIN BARN NI

**Casgliad 8.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gymalau 12-14 ac 16.

**Casgliad 9.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru y dylai cymal 17 fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad, am y rhesymau a nodwyd ym Memorandwm Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 10.** Efallai yr hoffai Aelodau'r Cynulliad drafod a yw'r rheolaethau a bennir yn Atodlen 1, ar gyfer y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan gymalau 12-14 ac 16, yn briodol.

## Cymal 15 ac Atodlen 2 – Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion (paragraffau 23 a 24 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**40.** Mae cymal 15 yn sefydlu'r Awdurdod Monitro Annibynnol ('yr IMA'). Mae'r IMA yn cael ei sefydlu er mwyn monitro'r modd y caiff Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael, sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion, ei gweithredu a'i gorfodi.

**41.** Nodir cyfansoddiad a swyddogaethau'r IMA yn Atodlen 2 i'r Bil.

**42.** Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi negodi:

> [...] modd i Weinidogion Cymru allu gwarchod buddiannau Cymru drwy gael rôl yn y broses o benodi aelod anweithredol o'r Awdurdod gyda gwybodaeth am yr amodau yng Nghymru sy'n ymwneud â'r materion perthnasol.

**43.** Darperir ar gyfer hyn o dan baragraffau 4 a 5 o Atodlen 2 i'r Bil.

**44.** Er bod hyn yn darparu rôl i Weinidogion Cymru, mae'n bwysig nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol fwrw ymlaen a phenodi person hyd yn oed os nad yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r penodiad arfaethedig.

**45.** Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y trefniad hwn.[7]

**46.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn codi pryder am y ffaith bod y Bil yn galluogi trosglwyddo swyddogaethau'r IMA i gyrff cyhoeddus eraill, heb estyn rôl gyfatebol i Weinidogion Cymru wrth benodi aelod anweithredol i gyrff cyhoeddus eraill a allai ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

[7] Yn ein cyfarfod ar 6 Ionawr 2020, dywedodd y Prif Weinidog y bydd y trefniad hwn yn parhau a bod sail dda wedi'i gwneud wrth sicrhau'r darpariaethau o dan baragraffau 4 a 5 o Atodlen 2 i'r Bil, cyn mynegi ei bryder ynghylch trosglwyddo swyddogaethau.

**47.** Mewn amgylchiadau pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio trosglwyddo swyddogaethau'r IMA, rhaid bodloni nifer o brofion a rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

### Pam y mae angen cydsyniad

**48.** Mae agweddau ar weithredu agweddau hawliau dinasyddion ar y Cytundeb Ymadael yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys y rhai a restrir ym mharagraff 31 o'r adroddiad hwn.

### EIN BARN NI

**Casgliad 11.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gymal 15.

**Casgliad 12.** Rydym yn croesawu negodiad llwyddiannus Llywodraeth Cymru o rôl i Weinidogion Cymru wrth benodi aelod anweithredol o'r IMA, ond rydym yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol fwrw ymlaen a phenodi person hyd yn oed os nad yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r penodiad arfaethedig.

**Casgliad 13.**

Rydym yn nodi pryder Llywodraeth Cymru ynghylch colli'r rôl hon o bosibl mewn amgylchiadau pan gaiff swyddogaethau'r IMA eu trosglwyddo i gorff cyhoeddus arall ac yn gobeithio y gall Llywodraeth y DU gynnig rhagor o sicrwydd ar rôl barhaus i Weinidogion Cymru yn yr amgylchiadau hyn cyn i'r Cynulliad drafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 21 Ionawr 2020.

## Rhan 4 – Meysydd pwnc eraill

## Cymalau 18 a 19 – Y prif bŵer mewn cysylltiad â materion gwahanu eraill a phŵer cyfatebol yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig (paragraffau 25 i 28 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ei wneud

**49.** Mae cymal 18 yn darparu pwerau i Weinidogion y DU wneud darpariaethau sy'n briodol, yn eu barn hwy, ar gyfer gweithredu Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael, neu ar gyfer ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r rhan honno o'r Cytundeb Ymadael.

**50.** Mae cymal 19 yn darparu pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru.

### Pam y mae angen cydsyniad

**51.** Mae Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael yn ymdrin ag ystod eang o faterion, gan gynnwys materion sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae cymal 19 yn rhagweld hyn wrth iddo geisio darparu pwerau gweithredu i Weinidogion Cymru.

## EIN BARN NI

**Casgliad 14.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymalau 18 a 19.

**Casgliad 15.** Yn yr un modd â darparu pwerau eraill yn y Bil, efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad am drafod a ydynt wedi'u cyflwyno a'u rheoli'n briodol.

## Cymal 20 – Darpariaeth ariannol (heb ei chynnwys yn y Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**52.** Mae'r ddarpariaeth hon yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i daliadau gael eu gwneud i'r UE at ddiben cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cytundeb Ymadael. Mae'r cymal yn darparu y caiff awdurdodau datganoledig fynd i wariant wrth baratoi ar gyfer gwneud offerynnau statudol o dan y Bil.

**53.** Ni chyfeiriodd Llywodraeth Cymru at gymal 20 yn ei Memorandwm.

**54.** Yn dilyn cwestiynau a ofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weinidog ar 6 Ionawr 2020, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Pwyllgor ar 13 Ionawr 2020 i ddweud y canlynol:

> Ar ôl ystyried hyn, rydym yn cytuno bod y cymal hwn yn addasu cymhwysedd Gweinidogion Cymru a bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar ei gyfer.[8]

### Pam y mae angen cydsyniad

**55.** Mae'r darpariaethau hyn yn addasu cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

[8] Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 13 Ionawr 2020

EIN BARN NI

**Casgliad 16.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 20.

## Cymalau 21 a 22 – Y prif bŵer mewn cysylltiad â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, a phŵer cyfatebol yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig (paragraffau 29 a 30 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ei wneud

**56.** Darperir pwerau i Weinidogion y DU weithredu'r Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon o dan gymal 21 a darperir pwerau cyfatebol i'r gweinyddiaethau datganoledig o dan gymal 22.

**57.** Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu nad yw'r pwerau hyn yn gyfyngedig er mwyn atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 heb gydsyniad y Cynulliad.

### Pam y mae angen cydsyniad

**58.** Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â meysydd cymhwysedd datganoledig.

EIN BARN NI

**Casgliad 17.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymalau 21 a 22.

**59.** Wrth drafod Deddf 2018 yn ystod cyfnod y Bil, gwnaethom fynegi'r farn a ganlyn:

> […] dim ond drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu, mewn amgylchiadau cyfyngedig, drwy ddefnyddio Gorchymyn Adran 109 (fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) y dylid diwygio'r sylfeini ar gyfer datganoli yng Nghymru.[9]

[9] Gwnaethom y datganiad hwn gyntaf yn ein papur **Chwe amcan ar gyfer gwella'r Bil Ymadael**, a anfonwyd gennym at holl Aelodau Seneddol Cymru ym mis Hydref 2017. Mae ein holl waith ar Ddeddf 2018 yn ystod cyfnod y Bil ar gael o'n gwefan.

**60.** Wrth graffu ar Ddeddf 2018 yn ystod cyfnod y Bil, gwnaed diwygiadau i gyfyngu ar nifer y pwerau sydd ar gael i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru er mwyn eu hatal rhag eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**61.** Yn ein hadroddiad ym mis Mai 2018, sef *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan*, o ganlyniad i wneud diwygiadau i Fil 2018, daethom i'r casgliad a ganlyn:

> Cymerwyd camau breision tuag at ddiogelu Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd am bwerau Llywodraeth y DU i weithredu'r Cytundeb Ymadael.[10]

**Casgliad 18.** Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar y pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer gweithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'w hatal rhag eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Cymalau 25 i 27 – Y berthynas â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (paragraffau 31 i 35 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymalau hyn yn ei wneud

**62.** Mae cymalau 25 i 27 yn diwygio Deddf 2018 i ystyried y Cytundeb Ymadael fel a ganlyn.

- Mae cymal 25 yn gohirio dargadw cyfraith yr UE sydd wedi'i harbed o'r diwrnod ymadael i ddiwedd y cyfnod gweithredu
- Mae cymal 26 yn disodli'r diwrnod ymadael gyda diwedd y cyfnod gweithredu ("diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu") yn adran 6 o Ddeddf 2018. Mae cymal 26 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir yn y dyfodol.
- Mae cymal 27 yn diwygio adran 8 o Ddeddf 2018 i ystyried y cyfnod gweithredu.

[10] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan*, Mai 2018

### Pam y mae angen cydsyniad

**63.** Mae'r cymalau hyn yn ceisio diwygio Deddf 2018 ac, wrth wneud hynny, ddod yn warchodedig rhag cael eu haddasu gan y Cynulliad yn y dyfodol oherwydd bod Deddf 2018 yn ddeddfiad gwarchodedig.

**64.** Mae hwn yn addasiad i gymhwysedd y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, felly, mae angen cydsyniad.

**65.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd rhai o'r newidiadau a wneir i Ddeddf 2018 gan y cymalau hyn "yn berthnasol hefyd i bŵer Gweinidogion Cymru i gywiro diffygion" yn Neddf 2018.

**66.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys cymalau 25 a 26 yn rhestr y cymalau y mae'n credu bod arnynt angen cydsyniad y Cynulliad.

### EIN BARN NI

**Casgliad 19.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gymalau 25 i 27.

## Cymal 28 – Pwerau ategol i godi ffioedd (paragraffau 36 i 38 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**67.** Mae cymal 28 yn ceisio diwygio cwmpas y pwerau codi ffioedd yn Atodlen 4 i Ddeddf 2018 er mwyn adlewyrchu'r pwerau newydd a fewnosodir yn Neddf 2018 gan y Bil.

**68.** Daw'r newidiadau hyn yn warchodedig rhag cael eu haddasu gan y Cynulliad yn y dyfodol oherwydd statws 'deddfiad gwarchodedig' Deddf 2018.

### Pam y mae angen cydsyniad

**69.** Mae memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

> Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd dod yn ddeddfiad gwarchodedig.

EIN BARN NI

**Casgliad 20.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 28.

## Cymal 29 – Adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu (paragraffau 39 a 40 o'r Memorandwm).

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**70.** Mae cymal 29 yn darparu rôl i'r Pwyllgor Craffu Ewropeaidd yn Nhŷ'r Cyffredin a Phwyllgor yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi wrth adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod pontio.

### Pam y mae angen cydsyniad

**71.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Memorandwm bod angen cydsyniad y Cynulliad oherwydd y gallai'r pwyllgorau hyn drafod deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â phynciau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**72.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhestru cymal 29 fel cymal y mae'n credu bod arno angen cydsyniad y Cynulliad.

EIN BARN NI

**73.** Fel pwyllgor, rydym wedi bod yn trafod rôl y Cynulliad wrth drafod deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod pontio, neu'r cyfnod gweithredu, ers haf 2018. Rydym wedi ysgrifennu at ein cydweithwyr yn Llywodraeth y DU a Senedd y DU sawl gwaith ers hynny.

**74.** Rydym o'r farn na ddylid lleihau rôl y Cynulliad wrth graffu ar ddeddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu, er ein bod yn cydnabod y gallai fod angen addasu rôl y Cynulliad yn ôl telerau'r Cytundeb Ymadael.

**75.** Er ein bod yn croesawu'r rôl a ddarperir i bwyllgorau San Steffan o dan gymal 29, rydym yn credu bod angen ei chryfhau drwy gynnwys rôl i bwyllgorau perthnasol y deddfwrfeydd datganoledig pan fydd deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei hadolygu'n ymwneud â meysydd cymhwysedd datganoledig.

**76.** Ar 8 Ionawr 2020, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i ddadlau dros ddau ddiwygiad i gymal 29 o'r Bil.[11]

**77.** Darperir y llythyr yn llawn fel atodiad A i'r adroddiad hwn, er bod ein cais craidd yn cael ei ailadrodd isod.

**78.** Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad rôl wrth ystyried cydymffurfedd cyfraith ddrafft yr UE ag egwyddor sybsidiaredd.

**79.** Mae hyn yn deillio o'r ddarpariaeth a ganlyn yn Erthygl 6 o Brotocol Rhif 2 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd:

> It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers.[12]

**80.** Wrth gwrs, ni fydd y ddarpariaeth hon yn gymwys mwyach ar ôl i'r DU adael yr UE.

**81.** Mae cymal 29 o'r Bil yn darparu ar gyfer dull seneddol ar gyfer adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu. Rydym yn nodi nad yw hyn yn gweithredu ar sail cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd. Yn lle hynny, mae'n dibynnu a yw darn o ddeddfwriaeth yr UE yn codi mater o ran buddiant cenedlaethol hanfodol i'r Deyrnas Unedig.

**82.** O brofiad y Cynulliad o adolygu cyfraith ddrafft yr UE yn y gorffennol, mae materion penodol o fuddiant i Gymru wedi codi, ar adegau, na chawsant eu nodi ar lefel y DU. Er enghraifft, effaith bosibl gwaharddiad ar bysgota rhwyd ddrifft ar ddiwydiant pysgodfeydd Cymru[13] a newidiadau i reoliadau organig ar gyfer amaethyddiaeth Cymru.[14]

**83.** Gellir ystyried bod y materion hyn, yn sgil hynny, yn faterion o fuddiant cenedlaethol yn y DU. Gwnaethom ddadlau y byddai'r Cynulliad, drwy gynnal

---

[11] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, *Bil yr UE (Cytundeb Ymadael): Adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu*, 8 Ionawr 2020

[12] Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Protocol Rhif 2 ar gymhwyso egwyddorion subsidiaredd a chymesuredd, 12008E/PRO/02, 9 Mai 2008

[13] Darllenwch waith Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad ar y cynnig hwn am ragor o wybodaeth.

[14] Unwaith eto, darllenwch waith Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad am ragor o wybodaeth.

adolygiad o ddeddfwriaeth yr UE â ffocws ar y meysydd polisi a ddatganolwyd iddo, yn ychwanegu gwerth at y broses graffu gyffredinol ledled y DU.

**84.** Felly, er mwyn sicrhau na fydd rôl y Cynulliad wrth adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio yn cael ei lleihau, rydym am i rôl gyfatebol i'r Cynulliad gael ei chydnabod yng nghyfraith y DU – yn yr un modd ag y cydnabyddir rôl o'r fath yn nhestun cyfreithiol y Cytuniadau ar hyn o bryd.

**85.** Gallai diwygiadau cyffredin i'r Bil sicrhau hyn. Er enghraifft:

Clause 29, page 33, line 39, after "Commons" insert –

> ", and any committee of the devolved legislatures,"

Clause 29, page 34, line 10, after "legislation" insert –

> "and has consulted any committee of the devolved legislatures that the EUC considers also has an interest in the EU legislation"

**86.** Byddai'r diwygiadau hyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn gadael unrhyw ymgynghoriad â'r deddfwrfeydd datganoledig yn ôl disgresiwn pwyllgorau seneddol y DU.

**Casgliad 21.** Rydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 29.

**Casgliad 22.** Dylid diwygio cymal 29, fel y nodir yn yr adroddiad hwn, er mwyn atal rôl bresennol y Cynulliad, wrth graffu ar ddeddfwriaeth yr UE, rhag cael ei lleihau yn ystod y cyfnod gweithredu.

## Cymal 36 – Diddymu deddfiadau diangen neu rai sydd wedi'u disbyddu (paragraffau 41 i 42 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**87.** Fel y mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi, mae cymal 36 yn diddymu rhai deddfiadau diangen neu rai sydd wedi'u disbyddu.

**88.** Yn achos diddymu darpariaethau Deddf 2018, mae'r rhain yn cael eu gwarchod rhag cael eu haddasu gan y Cynulliad ar hyn o bryd oherwydd bod Deddf 2018 yn "ddeddfiad gwarchodedig" o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Pam y mae angen cydsyniad

**89.** Gan fod elfennau o Ddeddf 2018 i'w diddymu, mae Llywodraeth Cymru yn dehongli hyn fel cynyddu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (gan nad yw'r darpariaethau hyn yn warchodedig mwyach).

**90.** Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau, gan fod cymhwysedd y Cynulliad yn cael ei newid, fod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

**91.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhestru cymal 36 fel cymal y mae'n credu bod arno angen cydsyniad y Cynulliad.

#### EIN BARN NI

**Casgliad 23.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 36.

## Rhan 5 – Darpariaeth gyffredinol a therfynol

## Cymal 39 – Dehongli (paragraffau 43 a 44 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**92.** Dyma brif gymal dehongli'r Bil.

### Pam y mae angen cydsyniad

**93.** Mae'r cymal hwn yn darparu dehongliad o'r termau a ddefnyddir drwy'r Bil, gan gynnwys mewn meysydd sy'n ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

**94.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhestru cymal 39 fel cymal y mae'n credu bod arno angen cydsyniad y Cynulliad.

#### EIN BARN NI

**Casgliad 24.** Rydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 39.

## Cymal 40 ac Atodlen 4 – Rheoliadau (paragraffau 45 a 46 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**95.** Mae cymal 40 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch rheoliadau o dan y Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithdrefnau.

### Pam y mae angen cydsyniad

**96.** Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 4 yn cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### EIN BARN NI

**Casgliad 25.** Rydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 40.

## Cymal 41 ac Atodlen 5 – Darpariaeth ganlyniadol (paragraffau 47 ac 48 o'r Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal yn ei wneud

**97.** Mae cymal 41 yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau canlyniadol a throsiannol o ganlyniad i'r Bil.

### Pam y mae angen cydsyniad

**98.** Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru o fewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### EIN BARN NI

**Casgliad 26.** Rydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 41.

## Cymal 42 – Rhychwant, cychwyn ac enw byr (heb eu cynnwys yn y Memorandwm)

### Yr hyn y mae'r cymal hwn yn ei wneud

**99.** Mae'r cymal hwn yn darparu rhychwant, cychwyn ac enw byr y Bil.

### Pam y mae angen cydsyniad

**100.** Y pŵer cychwyn a ddarperir gan gymal 42 yw'r sbardun i'r newidiadau a bennir mewn mannau eraill yn y Bil ddod i rym ac addasu cymhwysedd datganoledig.

**101.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y cymal hwn yn ei Memorandwm, er i Lywodraeth y DU ei nodi fel cymal y mae arno angen cydsyniad deddfwriaethol.[15]

EIN BARN NI

**Casgliad 27.** Rydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymal 42.

# 3. Casgliad

**102.** Yn yr amser sydd ar gael, nid ydym wedi gallu trafod rhai o'r pryderon ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn eu codi yn ei Memorandwm, yn enwedig gan fod rhai o'r pryderon hyn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u cynnwys mwyach yn y Bil presennol.

**103.** Yn fras, mae llawer o'r pryderon a godwyd gennym ynghylch dirprwyo pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn Neddf 2018 mewn perthynas â'r Ddeddf hon yn parhau[16]. Fodd bynnag, oherwydd realiti ymarferol a gwleidyddol, rydym wedi penderfynu peidio â'u hailddatgan yn yr adroddiad hwn.

**104.** Yn lle hynny, rydym wedi canolbwyntio ar y darpariaethau y mae arnynt angen cydsyniad deddfwriaethol gyda'r bwriad o sicrhau na fydd rôl y Cynulliad wrth graffu ar gyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu yn cael ei lleihau, ac na fydd effaith andwyol ar y setliad datganoli.

**105.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae arnynt angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad, gydag un ychwanegiad (cymal 42), ac yn gobeithio bod yr adroddiad hwn yn helpu i lywio dadl y Cynulliad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil.

[15] Gweler Atodiad A i Femorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil.

[16] Ceir ein gwaith ar Fil 2018 ar ein gwefan.

## Atodiad A – Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ynghylch cymal 29

Y Gwir Anrh. Steve Barclay AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd
Yr Adran Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd
9 Stryd Downing
Llundain
SW1A 2AS

---

8 Ionawr 2020

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

**Bil yr UE (Cytundeb Ymadael): Adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu**

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wrthi yn ystyried Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) ('y Bil') a materion cysylltiedig o ran cydsyniad deddfwriaethol.

Byddaf yn ysgrifennu atoch yr wythnos nesaf gyda'n hadroddiad terfynol ar y Bil – y nod yw cyhoeddi’r adroddiad cyn y ddadl yn y Cynulliad ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil.

Yn y cyfamser, dyma ysgrifennu atoch i ddadlau dros ddau ddiwygiad i gymal 29 o'r Bil i sicrhau bod gan y Cynulliad rôl wrth adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad rôl wrth ystyried a yw cyfraith ddrafft yr UE yn cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd.

Mae hyn yn deillio o'r ddarpariaeth isod ym Mhrotocol Rhif 2 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd:

> *It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers.*

Wrth gwrs, ar ôl i’r DU adael yr UE, ni fydd y ddarpariaeth hon yn gymwys mwyach.

Mae cymal 29 o'r Bil yn darparu ar gyfer dull seneddol ar gyfer adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu. Nodwn nad yw hyn yn gweithredu ar sail cydymffurfio ag

egwyddor sybsidiaredd. Yn lle hynny, mae'n dibynnu a yw darn o ddeddfwriaeth yr UE yn codi mater o ran buddiant cenedlaethol hanfodol i'r Deyrnas Unedig.

O brofiad y Cynulliad o adolygu cyfraith ddrafft yr UE yn y gorffennol, mae materion penodol o fuddiant i Gymru wedi codi, ar adegau, heb eu nodi ar lefel y DU. Er enghraifft, effaith bosibl gwaharddiad pysgota â rhwyd ddrifft ar bysgodfeydd Cymru a newidiadau i reoliadau organig ar gyfer amaethyddiaeth Cymru.

Gellir ystyried bod y materion hyn, yn sgil hynny, yn faterion o fuddiant cenedlaethol i'r DU. Gwnaethom ddadlau y byddai'r Cynulliad, drwy gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth yr UE â ffocws ar y meysydd polisi a ddatganolwyd iddo, yn ychwanegu gwerth at y broses graffu gyffredinol ledled y DU.

Felly, er mwyn sicrhau na fydd rôl y Cynulliad wrth adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio yn cael ei lleihau, rydym am i rôl gyfatebol (yn ôl disgresiwn, serch hynny) i'r Cynulliad gael ei chydnabod yng nghyfraith y DU – yn yr un modd ag y mae rôl o'r fath yn cael ei chydnabod yn nhestun cyfreithiol y Cytuniadau ar hyn o bryd.

Byddai diwygiadau syml i'r Bil yn sicrhau hyn. Er enghraifft:

> Clause 29, page 33, line 39, after "Commons", insert –
>
> > ", and any committee of the devolved legislatures,"
>
> Clause 29, page 34, line 10, after "legislation", insert –
>
> > "and has consulted any committee of the devolved legislatures that the EUC considers also has an interest in the EU legislation"


Byddai'r diwygiadau hyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn gadael unrhyw ymgynghoriad â'r deddfwrfeydd datganoledig yn ôl disgresiwn pwyllgorau seneddol y DU.

Gan fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin wedi mynd heibio, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried a yw'n bosibl trefnu i welliannau gael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi i roi effaith i'n cynnig.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog Gwladol yn eich Adran. Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Iarll Kinnoull (fel Cadeirydd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd yn Senedd ddiwethaf y DU), a Chynullydd Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Materion Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban.

Yn gywir,

David Rees AC



Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol